PRIFYSGOL CYMRU, BANGOR

YSGOL ASTUDIAETHAU TRWY'R GYMRAEG

Dyddiad: 20 Hydref 2005

Lle: Siambr y Cyngor

Presennol: Dr Einir Young (Cadeirydd), Mr Llion Dafydd, Ms Meri Huws, Mr David James, Ms Bethan W Jones, Ms Gwenda Rhian Jones, Dr Llion Jones, Dr Peredur Lynch, Dr Ioan Matthews (eitem 1 yn unig), Dr Delyth Morris, Mrs Delyth Murphy, Dr Arne Pommerening, Mrs Delyth Prys, Mr Stephen P Rees, Dr Enlli Thomas, Yr Athro Deri Tomos, Miss Rachel Ley (Cofnodion).

Ymddiheuriadau: Ms Shân Ashton, Dr Eryl Davies, Dr Jason Walford Davies, Mrs Lorna Egan, Mr Geraint George, Mr Aled Griffiths, Mr Dewi W Jones, Mr Eifion Lloyd Jones, Dr Eifiona Lane, Athro Densil Morgan, Mrs Mairwen Owen, Dr Robert Pope, Mr Dafydd Roberts, Dr Geraint Tudur, Yr Athro Thomas Watkin, Dr Eddie Williams, Mr Selwyn Williams.

1. CYFLWYNIAD

Agorwyd y cyfarfod â chyflwyniad gan Dr Ioan Matthews o Brifysgol Cymru ar waith Canolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg (CDACC), gyda'r prif bwyntiau fel a ganlyn:

i. Datblygiadau diweddar
Hydref 2004 - cyflwynwyd strategaeth Grŵp Llywio CCAUC/HEFCW i'r Gweinidog.
Mehefin 2005 – bu newidiadau i'r Ganolfan.
Gorffennaf 2005 - cyllidwyd cynlluniau pellach o'r Gronfa Ail-gyflunio.

ii. Rôl y Ganolfan
Wedi ei lleoli o fewn i Brifysgol Cymru ond yn gwasanaethu'r sector â Bwrdd Rheoli bychan yn cwrdd 6 gwaith y flwyddyn.
Gwefan newydd yn cael ei chreu.

iii. Rhaglen Waith y Ganolfan: gweithgareddau parhaus
Cynnal cyswllt rheolaidd gyda'r sefydliadau a chydweithio ar/ cydlynu projectau
Cronfa brojectau yn werth £50,000 yn 2005/6.

iv. Ysgoloriaethau
Dyfarnwyd 10 ar gyfer 2005/6, ac fe weithir yn agos â'r sefydliadau. Cytunir targedau gan gynnwys ymrwymiad i greu swyddi. Trefnir cyfleoedd hyfforddiant / strwythur cefnogi ar gyfer y myfyrwyr.

v. Cymrodoriaethau
Dyfarnwyd 6 ar gyfer 2005/6.

vi. Marchnata a Dilyniant: gweithgareddau presennol
Datblygu cyswllt ag ysgolion/colegau - hyrwyddo'r ddarpariaeth bresennol a manteision sgiliau dwyieithog.
Grŵp swyddogion Marchnata wedi ei sefydlu: CD ROM ar fin cael ei chomisiynu.

vii. Marchnata a Dilyniant: rhai o'r cynlluniau sydd ar waith
Cytuno ar strategaeth farchnata a dilyniant i'r sefydliadau.
Ymchwil pellach i agweddau/dyheadau myfyrwyr.

viii. Cynlluniau newydd (sicrhawyd cyllideb hyd at 2007/8)
Ystyried cynlluniau y gellir eu datblygu drwy bartneriaeth yn y sector (gan gynnwys cefnogaeth i fyfyrwyr ysgoloriaeth a staff).

ix. Asesiad Opsiynau
Sefydlwyd Grŵp Llywio ar gyfer y project gyda chadeirydd annibynnol.
Gwaith i ddechrau ym mis Tachwedd 2005 ac adroddiad i'w gyflwyno fis Mai 2006.

Nodwyd bod dyddiad cau ysgoloriaethau 2006/7 ym mis Ionawr a'r Cymrodoriaethau cyn y Nadolig. Nodwyd hefyd y byddai Dr Matthews yn ymweld â PCB eto rhwng 21 a 23 Tachwedd. Diolchwyd iddo am ei gyflwyniad trylwyr a chynhwysfawr. Gadawodd Dr Matthews y cyfarfod.

2. YMDDIHEURIADAU A CHROESO

Llongyfarchwyd Ms Meri Huws ar gael ei phenodi'n Ddirprwy Is-ganghellor a nodwyd bod Dr Llion Jones wedi newid ei swyddogaeth a bellach yn Swyddog Iaith wedi'i leoli yng Nghanolfan Bedwyr. Croesawyd Miss Rachel Ley i'w chyfarfod cyntaf fel Ysgrifennydd.

Nodwyd bod sawl aelod o staff wedi mynegi eu hymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod.

3. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Ysgol a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2005 fel cofnod cywir.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

i. **Eitem 2 Cynllun Mentora ac Arweinwyr Cyfoed** Mae'r her sy'n gysylltiedig â denu siaradwyr Cymraeg yn gymhleth oherwydd bod cymaint o fyfyrwyr yn teithio o'u cartrefi ac yn fyfyrwyr hyn yn parhau. Bydd y Grŵp yn parhau i edrych ar y sefyllfa ac yn adrodd o dro i dro.

ii. **Eitem 4a Presenoldeb y Brifysgol yn yr Eisteddfod** Roedd cyfraniad PCB yn yr Eisteddfod yn sylweddol a llongyfarchwyd y trefnydd Elinor Elis-Williams a phawb fu'n gysylltiedig. Noddwyd y Babell Wyddoniaeth gan PCB a bu Cadeirydd y Pwyllgor Gwyddonol, Yr Athro Deri Tomos, a'r Ysgrifennydd, Dr Iestyn Pierce, ac eraill yn weithgar dros ben. Bu'r brecwastau busnes yn CAST dan arweiniad yr Athro Siân Hope yn hynod o lwyddiannus, yng nghyd â nifer helaeth o weithgareddau amrywiol eraill. Mynegwyd gobaith y bydd safon a phresenoldeb tebyg yn cael eu cynnal i'r dyfodol. Cynhelir cyfarfod ar 26 Hydref er mwyn trafod Eisteddfodau'r dyfodol.

iii. **Eitem 4b Ail-strwythuro'r Llyfrgell** Nodwyd er gwybodaeth na fyddai'r gallu i fedru Cymraeg yn hanfodol ar gyfer penodiad y Prif Lyfrgellydd.

iv. **eitem 6 Y Ganolfan Diwydiannau Creadigol** Nododd Mr Llion Dafydd ei fod yn credu nad oedd myfyrwyr Cyfathrebu'n derbyn gwybodaeth ynghylch datblygiad y Ganolfan. Roedd rhai myfyrwyr yn poeni ynghylch y sefyllfa, gyda myfyrwyr Theatr a'r Cyfryngau yn ansicr ynghylch eu cyfleoedd perfformio yn y dyfodol.

Nodwyd y dylai'r materion yma gael eu codi yng nghyfarfodydd Grwpiau Tasg. **Cytunwyd** y dylai Mr Dafydd baratoi'r pwyntiau perthnasol ar ffurf bwledi fel y gellid eu cyflwyno i TASCC wythnos i Ddydd Gwener.

Gweithredu: Ll D

5. MATERION Y CYFARWYDDWR

1. Wythnos y Glas

Nodwyd y bu tipyn o weithgarwch yn ystod Wythnos y Glas a diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth. Diolchwyd yn arbennig i Gwenda Rhian am ei holl waith gyda'r posteri ac iddi hi a Gwenno Ffrancon am greu'r cwis. Llwyddiant oedd presenoldeb y grŵp yn y cyntedd ar y Dydd Llun, gyda llawer yn dangos diddordeb yn y cyrsiau dysgu. Roedd 38 wedi cofrestru ar gyfer modiwlau dysgu – yn cyfateb yn fras i niferoedd 2003/4.

Teimlir bod angen gwerthuso'r digwyddiad - roedd y Dydd Llun a'r Ffair yn llwyddiannus, ond 'roedd y Dydd Mawrth a'r cinio yn llai llwyddiannus. Cynigwyd y dylid ystyried gwahodd y siaradwyr Cymraeg i Fangor cyn iddynt gofrestru yn 2006 er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r opsiynnau sydd ar gael iddynt.

2. Cynllun Strategol 2005-2010

i. Pwynt 1

Nododd y Cyfarwyddwr nad oedd wedi derbyn gwahoddiad i ymuno â Bwrdd y Penaethiaid Academaidd yn unol â dymuniad yr Ysgol, ond adroddodd Ms M Huws nad fyddai newid i'r aelodaeth tan i'r colegau newydd gael eu creu.

ii Pwynt 2

Nodwyd bod 10% o fyfyrwyr yn astudio o leiaf un modiwl yn Gymraeg, ond gan fod rhyw 40% o fyfyrwyr yn dod o Gymru golyga hyn fod y canran o'r grŵp hwn yn 25%. Yn sgil agenda Iaith Pawb a'r cynlluniau i roi abwyd ariannol i fyfyrwyr crybwyllwyd yr angen am greu targed uchelgeisiol ar gyfer myfyrwyr o Gymru.

iii Pwynt 3

Gofynnwyd i TASCC ystyried hyn.

iv Pwynt 6

Yn sgil anogaeth i gyfri cost economaidd lawn holl weithgareddau'r sefydliad nodwyd y dylai aelodau YATG, yng nghyd-destun paneli maes a chydweithio arall a gydlynir gan CDACC, gofnodi holl amser staff a chostau teithio.

3. Asesiad Opsiynau

Dylid nodi bod Bwrdd y Brifysgol ar gyfer Dysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg wedi ei eithrio o bob trafodaeth ar yr ymarfer hwn ac nad oes hawl gan neb sy'n ymwneud ag addyg uwch fod yn rhan o unrhyw dendr.

Dylid nodi hefyd bod dau fath o asesiad ar y gweill, i) asesiad opsiynau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol yn amrywio o gadw'r *status quo* i 'goleg ffederal' ii) asesiad o 'gost ychwanegol' honedig y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg presennol. Mae aelodau'r Ysgol eisoes wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r drafodaeth yn ystod 2004 ond bydd angen ymateb i'r ymgynghoriadau rhain yn ofalus a meddylgar pan ddaw'r amser.

4. Grwpiau e-bost Cyfoed

Nodwyd bod grwpiau e-bost ar gyfer cysylltu â myfyrwyr Cymraeg eu hiaith newydd eu creu ar gyfer israddedigion (blynyddoedd 1-3) ac uwchraddedigion (dysgu ac ymchwil) ond dim ond y Cyfarwyddwr fydd â'r hawl i gysylltu â nhw.

5. Aelodaeth yr Ysgol

Nodwyd bod PYCI wedi awgrymu y dylai pawb sy'n medru'r Gymraeg ar y graddfeydd Academaidd/Academaidd Gysylltiedig fod yn aelodau o'r Ysgol fel yr opsiwn diofyn. Byddai gan unrhyw un gyfle i dynnu'i enw o'r rhestr. **Cytunwyd** ar hyn.

6. ADRODDIAD TASCC

Nododd Ms M Huws y dylid cynllunio'n fanwl i greu ceisiadau call ar gyfer yr ysgoloriaethau a'r cymrodoriaethau oedd ar gael. Roedd angen meithrin meysydd newydd a thrafod fel Ysgol. Roedd angen ystyried strategaeth hefyd yng nghyd-destun arian projectau.

Adroddwyd i drafodaethau ddechrau gyda Phrifysgol Aberystwyth parthed darpariaeth ar y cyd. Ar hyn o bryd Meri Huws, Dr Cen Williams a Dr Einir Young sy'n cydlynu'r gwaith ym Mangor a'r Athro Aled Jones, yr Athro Ioan Williams a Dr Mari Elin Jones ar ran Aberystwyth.

Nodwyd hefyd fod angen datblygu strategaeth cyfrwng Cymraeg i'r sefydliad, gydag amserlen benodol.

7. ADRODDIAD CANOLFAN BEDWYR

Yn anffodus roedd Dr Cen Williams yn methu bod yn bresennol oherwydd ei fod yn gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Dymunwyd gwellhad buan iddo.

Yn ei absenoldeb cylchwyd yr adroddiad gan Delyth Prys. Nodwyd fod Pennaeth newydd i'r Uned Gyfieithu, sydd wedi'i chartrefu yng Nghanolfan Bedwyr wedi'i phenodi, sef Dr Sylvia Prys Jones.

8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 1 Chwefror 2006 am 14.15 yn Siambr y Cyngor.

9. UNRHYW FATER ARALL

Nodwyd y byddai Ms M Huws yn trefnu'r Parti 'Dolig, ond **na** ddylid ei drefnu ar gyfer 16 Rhagfyr.

Gweithredu: MH